Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arweiniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol



Dogfen Hawdd ei Darllen gan Lywodraeth Cymru yw hon

Diweddarwyd Mehefin 2024

# Helo!

Mae gan Gymru gyfraith o’r enw Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Dechreuodd y gyfraith ar 1 Ebrill 2016.

Mae’r gyfraith newydd eisiau sicrhau bod Cymru’n lle gwell i chi fyw ynddo nawr ac yn lle gwell i bobl fyw ynddo yn y dyfodol.

Mae’r daflen hon yn rhoi’r ffeithiau pwysig ichi.

Am wybod mwy? I gael mwy o wybodaeth, ewch i dudalen 7.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024 WG50144

# Pam mae angen y gyfraith hon arnom ni?

Pan fydd **cyrff cyhoeddus** yng Nghymru yn mynd ati i wneud penderfyniadau, mae'r gyfraith hon yn dweud bod yn rhaid iddyn nhw ystyried pobl nawr ac yn y dyfodol.

Mae nifer o heriau yng Nghymru. Mae'r heriau hynny'n cynnwys:

- newid yn yr hinsawdd
- tlodi
- pobl sydd mewn iechyd gwael.

Er mwyn gwella pethau i bawb, mae'n rhaid i bawb weithio gyda'i gilydd.

Mae angen inni feddwl am yr wybodaeth sydd ei hangen ar bobl nawr.

Hefyd, mae angen meddwl am sut bydd hynny'n effeithio ar bobl yn y dyfodol.

Mae yna 44 **corff cyhoeddus** sy'n gorfod gweithio gyda'i gilydd i wella pethau:

- Gweinidogion Cymru
- Awdurdodau Lleol
- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru

- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Awdurdod Cyllid Cymru
- Trafnidiaeth Cymru
- Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
- Cymwysterau Cymru

**Mae Cyrff Cyhoeddus yn cynnwys y cynghorau lleol, y GIG a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Maen nhw'n rhoi llawer o wasanaethau inni fel meddygfeydd, ysgolion a gwasanaeth casglu sbwriel.**




# Sut mae'n gweithio


Mae gan y ddeddf 7 nod sy'n dweud wrth y cyrff cyhoeddus beth mae'n rhaid iddyn nhw weithio tuag ato. Dyma'r Nodau Llesiant:

1. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
2. Cymru lewyrchus
3. Cymru gydnerth
4. Cymru iachach
5. Cymru sy'n fwy cyfartal
6. Cymru o gymunedau cydlynus
7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu


Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw i bob un o'r nodau, nid dim ond i un neu ddau ohonyn nhw.

Wrth wneud penderfyniadau, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sicrhau ei fod yn meddwl am sut bydd pethau'n effeithio ar bobl a fydd yn byw yng Nghymru yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod angen iddyn nhw feddwl am fod yn **gynaliadwy**.


I fod yn gynaliadwy, mae'n rhaid iddyn nhw feddwl am:



- Y tymor hir.



- Sut i gysylltu pethau â'i gilydd fel yr economi, cymdeithas, diwylliant a'r amgylchedd.



- Sut i roi stop ar broblemau cyn iddyn nhw ddigwydd.



- Sut maen nhw'n gweithio gydag eraill.



- Sut maen nhw'n cynnwys pobl eraill wrth iddyn nhw wneud penderfyniadau.

**Mae bod yn gynaliadwy yn golygu defnyddio'r pethau sydd eu hangen arnom ni gan sicrhau bod digon ar ôl ar gyfer y cenedlaethau fydd yma yn y dyfodol.**

# Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r person sy'n sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'r Comisiynydd hefyd yn gallu awgrymu sut gall y cyrff cyhoeddus weithio mewn ffordd well.

Unwaith yn ystod tymor y Llywodraeth, bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ysgrifennu adroddiad ar ba mor dda y mae Cymru'n ei wneud o ran llwyddo i gyrraedd y nodau.

# Rhagor o wybodaeth

Os hoffech chi gael ragor o wybodaeth am Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ewch i'n gwefan:
llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru

I gysylltu â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gallwch fynd i wefan Cenedlaethau'r Dyfodol yn:
www.cenedlaethaurdyfodol.cymru